Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithredu

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu fersiwn drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (y Cynllun Morol) a bydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno yn ystod hydref 2017. Fel rhan o'r angen i feddwl y tu hwnt i'r cynllun, rydym hefyd wedi drafftio dogfen dybiannol ychwanegol, "Gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP) – 2017-2020", sy'n cyflwyno ein syniadau cychwynnol ar ffordd o weithredu'r Cynllun Morol.

Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Weithredu Cynllun Morol Cymru, a sefydlwyd fel is-grŵp y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ehangach cychwynnol, yn ystod gwanwyn 2017 i drafod y ddogfen ddrafft hon a darparu argymhellion i Lywodraeth Cymru ar sut i weithredu'r Cynllun Morol. Rydym yn ddiolchgar i'r grŵp am eu hamser a'u hymdrechion wrth ddarparu'r cyngor hwn.

Rydym wedi ystyried yr argymhellion hyn ac yn eu defnyddio i ddatblygu ein rhaglen waith ar weithredu'r cynllun. Mae'r papur hwn yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru naill ai wedi neu'n bwriadu mynd i'r afael â phob un o argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen. Bydd y rhai a nodwyd fel WEDI GWNEUD yn cael eu hadolygu fel bo'r angen ar ôl yr ymgynghoriad. Rydym yn croesawu sylwadau ac esboniadau pellach fel bo'r agen, a byddwn yn adolygu'r angen i gyfarfod eto fel grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn mynd i'r afael ag agweddau penodol ar weithredu'r cynllun morol.

2. Argymhellion

Rolau a chyfrifoldebau

Argymhelliad 1: Gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor ac arweiniad, ar adeg cyhoeddi'r Cynllun terfynol, er mwyn egluro a chodi ymwybyddiaeth o ddisgwyliadau, rolau a chyfrifoldebau'r rhai ddylai ddefnyddio'r Cynllun.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Llunio rhestr o'r awdurdodau cyhoeddus sy'n gorfod gwneud penderfyniadau yn unol â'r cynllun neu'n gorfod ystyried y cynllun (WEDI GWNEUD).
- Ymgysylltu â'r awdurdodau hynny er mwyn trafod eu rhwymedigaethau a'u hanghenion penodol.
- Cyflwyno rhestr o rolau a chyfrifoldebau lefel uchel awdurdodau lleol yn y Cynllun Morol ei hun (WEDI GWNEUD).
- Darparu canllawiau gweithredu a hyfforddiant manylach i'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol fel bo'r angen yn seiliedig ar y profiad ymarferol o weithredu'r cynllun.
- Ystyried potensial y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i helpu i ddatblygu canllawiau a hyfforddiant ysgrifenedig neu ymarferol.

Argymhelliad 2: Dylai'r berthynas rhwng Datganiadau Polisi Cenedlaethol y DU, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru, a'r Cynllun Morol fod yn glir yn y Cynllun a'r canllawiau atodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Darparu datganiad a diagram yn y cynllun sy'n dangos y cysylltiadau polisi perthnasol (WEDI GWNEUD).
- Rhoi siart llif yn y cynllun sy'n esbonio'r camau sydd angen eu cymryd i ddatblygu ac ystyried cynigion (WEDI GWNEUD).
- Cynnwys polisi (GOV_02) sy'n nodi nifer y cynlluniau a'r dogfennau sydd angen cydymffurfio â nhw gan gynnwys y dogfennau cynllunio a'r datganiadau ardal perthnasol (WEDI GWNEUD).
- Cydnabod bod y system yn gymhleth a bod angen mynd i'r afael â hi fesul achos o bosib; ystyried hyn dan brosiectau peilot gweithredu posib.

Argymhelliad 3: Dylai cwestiynau'r ymgynghoriad drafft gael eu llywio gan gyfraniadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ar weithredu a dylent gael eu cyflwyno i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i gael eu sylwadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Ystyried diwygio cwestiynau'r ymgynghoriad ar sail yr argymhellion hyn.
- Cyflwyno cwestiynau ymgynghori drafft i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid cyn cyfarfod mis Medi/Hydref; gofyn am sylwadau (WEDI GWNEUD).

Argymhelliad 4: Bod Llywodraeth Cymru yn llunio Canllawiau Ymarfer ar weithredu'r Cynllun Morol er mwyn helpu i'w weithredu

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Drafftio canllawiau gweithredu polisi craidd fel rhan o'r cynllun (WEDI GWNEUD).
- Drafftio papur yn amlinellu'r prif faterion a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a rhestr o dasgau a gofynion; rhannu gyda'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid er mwyn cael sylwadau.
- Defnyddio'r broses ymgynghori i gasglu barn am lefel a manylder y canllawiau sydd eu hangen o bosib, a'u blaenoriaethau perthynol.
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, gan gynnwys trwy brosiectau peilot penodol, er mwyn pennu pa ganllawiau a/neu hyfforddiant ychwanegol sydd eu hangen (gan gynnwys cymesuredd).
- Ystyried yr angen am ganllawiau ychwanegol i grwpiau eraill a nodwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, gan gynnwys mewn perthynas â gorfodi.

Argymhelliad 5: Bod Llywodraeth Cymru, gyda chymorth y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, yn paratoi enghreifftiau gweithiol o benderfyniadau yng nghyd-destun y Cynllun a'r astudiaethau achos.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Datblygu prosiectau peilot i weithio gyda datblygwyr a rheoleiddwyr er mwyn profi dulliau gweithredu a chynnwys y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn y broses hon.
- Ystyried paratoi astudiaethau achos fel rhan o ganllawiau gweithredu ysgrifenedig yn dilyn ymgynghoriad.

Rhoi'r Cynllun ar waith

Argymhelliad 6: Gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu arferion gorau i ddangos sut mae'r Cynllun wedi dylanwadu ar y prosiect; gall fod trwy broses gwmpasu a chyflwyno yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Gweithio gydag awdurdodau cyhoeddus er mwyn penderfynu pa wybodaeth maen nhw ei hangen i asesu cydymffurfiaeth y cynnig â pholisïau'r cynllun a sut bydd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi. Fel rhan o hyn, mae'n bosib y byddwn yn asesu % prosiectau y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, hyd a lled y cydleoli /gwrthdaro, tystiolaeth o gydweithredu, tystiolaeth o osgoi yn gynnar yn y broses a phenderfyniadau lliniaru, neu arolwg o ymwybyddiaeth datblygwyr a'r sylw a roddir ganddynt i'r cynllun
- Ystyried y canllawiau sydd eu hangen ar ddatblygwyr er mwyn darparu tystiolaeth o'u cydymffurfiaeth â pholisïau'r cynllun, gan gynnwys ystyried cymesuredd.
- Datblygu fframwaith er mwyn coladu, storio a rhannu'n effeithiol dystiolaeth berthnasol am gynllunio morol er mwyn llywio penderfyniadau a gwerthuso pa mor effeithiol yw gweithredu'r cynllun (drafft cyntaf i'w rannu â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliad).

Hyfforddiant

Argymhelliad 7: Paratoi hyfforddiant DPP a chynllun cyfathrebu i Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a defnyddwyr eraill y cynllun (gan gynnwys ymgyngoreion y sector preifat). Gellir gwneud hyn trwy fodiwl ar-lein neu wyneb yn wyneb, ond rhaid ei gynllunio'n iawn a'i gysylltu â'r cynulleidfaoedd allweddol a nodwyd uchod.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Ymgysylltu ag awdurdodau lleol er mwyn darparu canllawiau a hyfforddiant fel bo'r angen; fodd bynnag, bydd rhaid i awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw'n gallu cydymffurfio â gofynion y cynllun.
- Ystyried datblygu hyfforddiant i ddatblygwyr fel eu bod nhw'n gyfarwydd â'r wefan cynllunio morol.

Argymhelliad 8: O'r herwydd, dylai Llywodraeth Cymru ystyried i ba raddau yn gall gweithgareddau ar raddfa fach, risg isel, fod y tu allan i gwmpas y Cynllun e.e. *de minimus*.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Mae ein llif gwaith cyfrannol wedi pennu bod rhaid i bob datblygiad gan gynnwys rhai Band 1 (gweithgareddau risg isel, ar raddfa fach) gydymffurfio â'r cynllun. Nod ein dull yw sicrhau nad yw'r cynllun yn rhoi baich ychwanegol ar weithgareddau ar raddfa fach / risg isel. Byddwn yn disgrifio sut mae gweithgareddau o'r fath yn cydymffurfio â'r cynllun, ac eithrio sefyllfa lle byddai cynigwyr y gweithgareddau dim ond yn gorfod ticio bocs yn y ceisiadau (neu gyflwyno llythyr) i ddweud eu bod nhw wedi darllen y canllawiau.

Gweithgareddau heb eu rheoleiddio

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd polisïau o fewn y cynllun yn gallu dylanwadu ar weithgareddau heb eu rheoleiddio. Yn gysylltiedig â hyn, efallai y bydd hefyd yn bwysig i Lywodraeth Cymru esbonio lle nad oes modd defnyddio'r cynllun o gwbl (e.e. cregyn bylchog Ceredigion).

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Ymgysylltu â diwydiannau perthnasol, trwy'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn y lle cyntaf, er mwyn pennu pa mor barod yw'r diwydiannau hynny sydd heb eu clymu gan y cynllun, i gydymffurfio â'i bolisïau ar sail wirfoddol.
- Ystyried y potensial o ddefnyddio'r cynllun i ddylanwadu ar benderfynwyr eraill sy'n berthnasol i'r sectorau hyn e.e. cyrff cyllido.
- Ystyried adolygu profiadau mewn llefydd eraill i nodi lle gall cynllunio ddylanwadu ar weithgareddau heb eu rheoleiddio, yn ddefnyddiol ac ystyrlon.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod polisïau'r Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion polisi eraill Llywodraeth Cymru, a dangos y ffordd er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau'n gyfredol yng nghyd-destun newid mewn blaenoriaethau, deddfwriaethau a pholisïau rhwng cyfnodau adolygu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Datblygu polisïau mewn cydweithrediad â chydweithwyr WFGA a Deddf yr Amgylchedd (WEDI GWNEUD).
- Cyflwyno amcanion a pholisïau cyffredinol yn y cynllun dan Amcanion Morol Lefel Uchel er mwyn dangos eu bod yn cyd-fynd â'r MPS (WEDI GWNEUD).
- Cynnwys GEN_01 a GEN_02 yn y cynllun er mwyn sicrhau cydlyniad ag egwyddor SD (WEDI GWNEUD).
- Cynnwys GOV-01 yn y cynllun, gan restru'r dogfennau perthnasol eraill sydd angen eu dilyn (WEDI GWNEUD).
- Darparu tabl yn y cynllun sy'n dangos pa bolisïau sy'n cefnogi pa ddisgrifyddion MSFD (WEDI GWNEUD).
- Cadw'r cysyniad o "where appropriate", "where possible" ac "unless relevant considerations indicate otherwise" yng nghanllawiau gweithredu'r cynllun er mwyn rhoi hyblygrwydd i reoleiddwyr addasu wrth i bolisïau eraill y Llywodraeth esblygu (WEDI GWNEUD).
- Meithrin dealltwriaeth o effeithiau'r cynllun, trwy fonitro ac adrodd, ac unrhyw angen i ddiweddaru neu roi cymorth polisi ychwanegol i gefnogi polisi'r cynllun.
- Cynnal ymwybyddiaeth o'r cynllun o fewn adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb a chydlynu â pholisïau'r dyfodol.

Y rhyngysylltiad tir-môr

Argymhelliad 11: Bod Llywodraeth Cymru (polisi morol gyda chaniatâd cynllunio/cenedlaethol) yn ystyried opsiynau a gweithredu atebion ar sut i symleiddio (osgoi ailadrodd) a chysoni gwaith cynllunio/cynllunio seilwaith a gofynion trwyddedu morol ar gyfer datblygiadau/gweithgareddau yn yr ardal forol er mwyn helpu i roi'r Cynllun ar waith.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Ymgysylltu â Gwasanaeth Trwyddedu CNC, cydweithwyr cynllunio tiriogaethol, rheoleiddwyr perthnasol eraill a gweinyddiaethau cyfagos er mwyn ystyried y ffordd orau o gysoni prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.
- Datblygu canllawiau gweithredu tebyg fel y bo'n ofynnol.

'Esblygiad' y cynllun

Argymhelliad 12: Yn achos 'lansiad tawel' o'r Cynllun, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir beth yw'r bwriad. Er enghraifft:

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn bwriadu

- Pwysleisio'n glir yn y cynllun y bydd polisïau'n weithredol o ddiwrnod 1af mabwysiadu'r cynllun (WEDI GWNEUD).
- Datblygu canllawiau ar sut bydd y cynllun yn effeithio ar weithgareddau sydd eisoes ar waith neu y gwnaethpwyd cais amdanynt cyn y dyddiad mabwysiadu.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i fod yn gadarn yn wyneb newidiadau; sut mae'n bwriadu bod yn ddigon ymatebol i newidiadau amrywiol rhwng cyfnodau adolygu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Rydym yn cydnabod yr angen i ddiogelu dyfodol y cynllun, yn enwedig yn wyneb ansicrwydd Brexit. Rydym yn bwriadu

- Nodi yn y cynllun bod mapiau'n ddangosol (WEDI GWNEUD).
- Cadw digon o hyblygrwydd er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol addasu eu dulliau ac asesu ceisiadau fesul achos (WEDI GWNEUD).
- Ystyried darparu canllawiau ychwanegol yn dilyn ymgynghoriad.
- Adolygu'r cynllun yn wyneb newidiadau polisi neu lywodraethu sylweddol, er mwyn pennu a oes angen ail-ymgynghori a diwygio rhwng cyfnodau adolygu.
- Darparu dull sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ystyried pryderon awdurdodau lleol ac eraill ar ôl mabwysiadu'r cynllun.

Argymhelliad 14: Dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, dan law Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant, sefydliadau cadwraeth a rheoleiddwyr er mwyn adolygu materion a dewisiadau monitro'r Cynllun.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Bwrdd y Prosiect fydd yn cyflawni'r dasg hon yn bennaf. Byddwn angen ystyried yr angen i sefydlu grŵp o'r fath o'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, ac os felly, bydd yn cynnig Cylch Gorchwyl clir.